***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 126

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006

## RHAN 8

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL YNGLŷN Â BENTHYCIADAU

**Symiau ychwanegol o fenthyciadau**

**43.**—(1) Caiff myfyriwr cymwys wneud cais am gymryd benthyg swm ychwanegol o fenthyciad—

(a) os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu y dylai uchafswm y benthyciad sydd wedi'i hysbysu i'r myfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd gael ei gynyddu (gan gynnwys cynnydd i fyny o ddim byd) o ganlyniad i ailasesu cyfraniad y myfyriwr neu fel arall; a

(b) os yw'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn nad yw'r cynnydd yn yr uchafswm yn deillio o'r ffaith bod y myfyriwr cymwys—

(i) wedi methu â rhoi gwybodaeth yn ddi-oed a allai effeithio ar ei allu i fod â hawl i gael benthyciad neu swm y benthyciad y mae ganddo hawl i'w gael; neu

(ii) wedi rhoi gwybodaeth sy'n anghywir o ran unrhyw fanylyn perthnasol.

(2) Mae'r swm ychwanegol o dan baragraff (1) yn swm na fydd, o'i adio at y swm y gwnaed cais amdano eisoes, yn fwy na'r uchafswm wedi'i gynyddu.

(3) Os yw myfyriwr cymwys wedi gwneud cais am fenthyciad o lai na'r uchafswm y mae ganddo hawlogaeth i'w gael mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd, caiff wneud cais am gymryd benthyg swm ychwanegol na fydd, o'i adio at y swm y gwnaed cais amdano eisoes, yn fwy na'r uchafswm perthnasol sy'n gymwys yn ei achos ef.

**Llog**

**44.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd benthyciadau'n cario llog yn ôl y gyfradd a fydd yn arwain at gyfradd ganrannol flynyddol o dâl a bennir yn unol â Rheoliadau Credyd Defnyddwyr (Cyfanswm y Tâl am Gredyd) 1980(**1**) sy'n hafal i'r cynnydd canrannol rhwng y mynegai prisiau manwerthu pob eitem a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Mawrth 2004 a'r mynegai a gyhoeddwyd ganddi ar gyfer Mawrth 2005.

(2) Os yw'r gyfradd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn fwy na'r gyfradd sydd am y tro wedi'i phennu at ddibenion unrhyw esemptiad sydd wedi'i roi yn rhinwedd adran 16(5)(b) o Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974(**2**) bydd benthyciadau'n cario llog yn ôl y gyfradd sydd wedi'i phennu felly.

(3) Cyfrifir llog ar y prifswm sy'n weddill bob dydd ac mae'n cael ei ychwanegu at y prifswm bob mis.

(**1**) O.S. 1980/51, a ddiwygiwyd gan O.S. 1989/596 ac O.S. 1999/3177.
(**2**) 1974 p. 39.

(4) Y mynegai prisiau y mae adran 22(8) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw iddo wrth ragnodi cyfradd llog benthyciadau yw'r mynegai prisiau manwerthu pob eitem a grybwyllir ym mharagraff (1).